O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# HADAU, CYMRU

# Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# HADAU, CYMRU

# Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni* | *** |
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a deuant i rym 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y'u gosodir.

### Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff A1 (dehongli)—

---

(**1**) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

(**2**) O.S. 2012/245 (Cy. 39). Mewnosodwyd paragraff A1 o Atodlen 2 gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(i) yn y diffiniad o “pla cwarantin parth gwarchodedig”, yn lle “pla cwarantin parth gwarchodedig” (“*protected zone quarantine pest*”) rhodder “pla cwarantin ardal sy’n rhydd rhag plâu” (“*PFA quarantine pest*”)”;

(ii) yn y diffiniad o “PRHG”, yn lle “yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”;

(iii) yn y diffiniad o “pla cwarantin yr Undeb”, yn lle “pla cwarantin yr Undeb” (“*Union quarantine pest*”)” rhodder “pla cwarantin Prydain Fawr” (“*GB quarantine pest*”)”.

(b) ym mharagraffau 15, 28, 42 a 50 (gofynion cnydau a hadau), ym mhob lle y maent yn digwydd—

(i) yn lle “parth gwarchodedig” rhodder “ardal sy’n rhydd rhag plâu”;

(ii) yn lle “yr Undeb” rhodder “Prydain Fawr”.

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o “PRHG”, yn lle “yr Undeb” rhodder “Brydain Fawr”.

*Enw*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) O.S. 2017/691 (Cy. 163). Mewnosodwyd y diffiniad o “PRHG” gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.